29ain o Fehefin 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 6ed o Orffennaf 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 1af o Fehefin 2021 (Atodiad **Gwyrdd**).

Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

(ii) Pwyllgor Personél, 17eg o Fehefin 2021 (Atodiad **Glas**)
(iii) Pwyllgor Cyllid, 22ain o Fehefin 2021 (Atodiad **Coch**) **(dim ond eitemau 8 a 9 sy'n eithriedig).**

6.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Gwasanaeth Ieuenctid

Cyflwyniad gan Sion Bryn Roberts, y Gwasanaeth Ieuenctid, ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran Clwb Ieuenctid Caernarfon.

9. Race for Life

Nodwyd y derbyniwyd cais gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd yn gofyn a oedd y Cyngor Tref yn hapus i'r digwyddiad uchod gymryd lle ar y 19eg o Fedi.

10. Gweithdrefn ar gyfer Datrys Anghydfod yn Lleol

Cyflwyno'r Weithdrefn ar gyfer Datrys Anghydfod yn Lleol, sydd wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Personél (copi ynghlwm).

11. Gohebiaeth gan Gynghorau Cymuned

(a) Cyngor Tref Nefyn - Creu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith

Nodi y derbyniwyd e-bost gan Glerc Cyngor Tref Nefyn yn datgan fod aelodau Cyngor Tref Nefyn yn awyddus i gynnal cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Gofynnir a oes gan y Cyngor ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath.

(b) Cyngor Cymuned Pistyll – Problemau parcio dros nos

Cyflwyno e-bost gan Glerc Cyngor Cymuned Pistyll yn gofyn am gefnogaeth i'w cais o ran problemau parcio dros nos (copi ynghlwm).

12. Jetskis

Cyflwyno gohebiaeth gan "Above the Brine" yn ymateb i'r drafodaeth ddiweddar yn y Cyngor Tref o ran jetskis (copi ynghlwm).

13. Archwiliad Iechyd a Diogelwch

Nodi fod gohebiaeth wedi dod i law gan gwmni yn cynnig gwneud gwneud Archwiliad Iechyd a Diogelwch ar weithgareddau'r Cyngor.

14. Contract ar gyfer y lifft yn Adeilad yr Institiwt

Nodi fod gohebiaeth wedi dod i law o ran adnewyddu'r contract er mwyn cynnal a chadw'r lifft yn Adeilad yr Institiwt, a bydd y Clerc yn manylu ar hyn yn y cyfarfod.

15. Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21 (Copi ynghlwm).

16. Adfywio Trefi a Chymunedau yng Nghymru wedi Covid-19

Cyflwyno adroddiad gan y Cynghorydd Ann Hopcyn wedi iddi fynychu digwyddiad Unllais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar y pwnc ar y 23ain o Fehefin (copi ynghlwm).

17. Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru

Cyflwyno e-bost a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr uchod (copi ynghlwm).

Gellir dod o hyd i'r cysylltiad â'r ymgynghoriad a sut i ymateb yma:

https://llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau-clercod-cynghorau-cymuned

18. Adeilad yr Institiwt – Llogi Ystafelloedd

Cyflwyno e-bost gan Maria Lamburn o ran costau llogi ystafell yn Adeilad yr Institiwt (copi ynghlwm).

19. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwyno'r Rhybuddion o Gynnig a ganlyn:

(1) Y Cynghorydd Kenny Richards

Gofynnaf yn barchus i'r Cyngor Tref ystyried teilyngdod cysylltu â Chyngor Gwynedd, gyda'r bwriad o osod cyfyngiadau parcio ymarferol o fewn waliau hanesyddol y dref rhwng 11am a 6pm.

Rwy'n tynnu sylw arbennig at Stryd Twll yn y Wal a Stryd y Plas, lle bu anghydfod parhaus rhwng preswylwyr ac aelodau o'r cyhoedd a pherchnogion busnes. Rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater sy'n achosi risg sylweddol i iechyd a diogelwch i bawb dan sylw gan barcio anghyfreithlon, sy'n rhwystro a / neu'n anystyriol

A gaf awgrymu y dylai'r cynghorwyr tref y ward perthnasol gynnal ymarfer casglu gwybodaeth trwy ymweld â safleoedd busnes a thrigolion i goladu barn, er mwyn darparu adroddiad cytbwys i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd am y problemau cyfredol.

(2) Y Cynghorydd Dawn L. Jones

Roeddwn i a llawer o drigolion Caernarfon wedi cael siom ofnadwy wrth gyrraedd mynwent Llanbeblig dros benwythnos y 19/20 o Fehefin i dalu teyrnged i'n hanwyliaid ar Sul y tadau…Roedd y gwair wedi tyfu yn uchel, roedd hi'n anodd i'r rhai oedd â phroblemau symudedd gyrraedd lan y bedd. Roedd y fynwent yn edrych yn flêr ofnadwy…

Mae digon anodd ymweld â'r fynwent unrhyw ddiwrnod ond rwyf yn teimlo bod y golygfa yma wedi gwneud y broses yn un torcalonnus. Oes posib i ni Cynghorwyr Cyngor Tref Caernarfon ysgrifennu llythyr at yr adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ddatgan ein siom a gofyn a oes posib i'r amserlen flynyddol ystyried dyddiadau pwysig fel, Sul y mamau, tadau, Sul y Blodau etc er mwyn gwneud yn siŵr bod y fynwent yn edrych yn dwt ar y dyddiadau arwyddocaol yma?

20. Cwestiynau

21. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

22. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).

23. Cwmni Hyd Braich

Cyflwyno adroddiad gan y Clerc o ran ffurfio Cwmni Hyd Braich (copi ynghlwm).

24. Tendrau

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc o ran y canlynol:

(a) Tendr Goleuadau Nadolig 2021-23.

(b) Cwots ar gyfer cyflenwi llungopïwr i Adeilad yr Institiwt.